



Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru  
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Adroddiad ar**

**Ysgol Maes Y Gwendraeth  
Drefach  
Llanelli  
Sir Gaerfyrddin  
SA14 7AB**

**Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2016**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg  
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwysu'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwysu'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau  
Estyn  
Llys Angor, Heol Keen  
Caerdydd  
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at [cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru](mailto:cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru)

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:  
[www.estyn.llyw.cymru](http://www.estyn.llyw.cymru)

**© Hawlfraint y Goron 2016: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 31/03/2016**

## Cyd-destun

Ysgol uwchradd ddynodedig Gymraeg yw Ysgol Maes Y Gwendraeth ar gyfer disgyblion 11-18 oed. Mae wedi ei lleoli yng Nghefneithin, Sir Gaerfyrddin a chaiff ei chynnal gan awdurdod lleol Sir Caerfyrddin. Agorwyd yr ysgol yn 2013. Ar hyn o bryd, mae 821 o ddisgyblion ar y gofrestr gyda 144 yn y chweched dosbarth.

Mae 12.7% o ddisgyblion yn ysgol yn gymwys i brydau ysgol am ddim sydd yn is na'r canran cenedlaethol o 17.4%. Mae llai na 1% o ddisgyblion yr ysgol yn byw yn ardaloedd 20% mwyaf difreintiedig Cymru.

Derbynia'r ysgol ddisgyblion o'r ystod gallu llawn. Mae 20% o ddisgyblion ar y gofrestr anghenion dysgu ychwanegol, gyda 7% o'r disgyblion â datganiad o anghenion addysgol arbennig, sydd yn uwch na'r canran cenedlaethol o 2.5%. Mae 61% o'r disgyblion yn siarad Cymraeg yn y cartref.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd yn 2015. Mae'r tîm uwch arwain yn cynnwys y pennaeth, dirprwy bennaeth a thri phennaeth cynorthwyol.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Maes Y Gwendraeth yn 2015-2016 yw £5,038. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion uwchradd Sir Gaerfyrddin yw £5,333 a'r lleiafswm yw £3,494. Mae Ysgol Maes Y Gwendraeth yn yr ail safle o'r deuddeg ysgol uwchradd Sir Gaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

<b>Perfformiad presennol yr ysgol</b>	<b>Digonol</b>
<b>Rhagolygon gwella'r ysgol</b>	<b>Da</b>

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad yr ysgol yn ddigonol oherwydd bod:

- deilliannau disgyblion yn y prif dangosyddion wedi gwella dros y ddwy flynedd ers i'r ysgol agor
- bron pob disgybl yn dangos agwedd gadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn ymroi'n llwyr i dasgau yn y gwersi
- bron pob disgybl yn hapus ac yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol
- safonau ymddygiad disgyblion yn ardderchog yn y gwersi ac o amgylch yr ysgol
- mae llawer o athrawon yn cynllunio'n drwyadl ac yn gosod disgwyliadau uchel i bob un o'r disgyblion
- yr ysgol yn hyrwyddo lles y disgyblion yn effeithiol
- yr ysgol yn darparu ystod eang o weithgareddau allgyrsiol i ddatblygu hyder a medrau cymdeithasol y disgyblion

Fodd bynnag:

- yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad yr ysgol yn y prif dangosyddion yn is nag ydyw mewn ysgolion tebyg eraill
- mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni pump neu fwy o raddau TGAU A\* - A yn is na chyfartaledd ysgolion tebyg yn y teulu
- mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd oherwydd diffyg ymdrech a diddordeb yn eu gwaith

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd bod:

- arweinyddiaeth effeithiol yr uwch dîm arwain wedi sefydlu blaenoriaethau clir ar gyfer yr ysgol
- systemau cadarn yn sicrhau atebolrwydd ymhlith rheolwyr ar bob lefel
- systemau effeithiol gwella ansawdd sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau, addysgu ac arweinyddiaeth
- cynllun datblygu'r ysgol yn cynnwys ffocws buddiol ar wella safonau ynghyd â thargedau heriol meintiol
- yr ysgol yn cydweithio'n effeithiol gyda nifer o bartneriaid gan gynnwys ysgolion Cymraeg eraill a choleg addysg bellach lleol ar gyfer ehangu profiadau disgyblion
- mae'r ysgol yn cynllunio'n fwriadus â'r awdurdod lleol i waredu'r diffyg cyllidol

Fodd bynnag:

- nid yw'r prosesau hunanarfanu'n cynnwys y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol a disgyblion ag anghenion arbennig

## Argymhellion

- A1 Codi safonau yng nghyfnod allweddol 4
- A2 Cryfhau rôl y mentoriaid cynnydd i olrhain perfformiad disgyblion unigol ac i sicrhau y cymorth angenrheidiol
- A3 Cryfhau rôl y llywodraethwyr i sicrhau her briodol i'r ysgol
- A4 Lledaenu arfer orau mewn hunanarfarnu i holl waith yr ysgol gan gynnwys y ddarpariaeth ar gyfer addysg bersonol a chymdeithasol a disgyblion ag anghenion arbennig
- A5 Cydweithio gyda'r awdurdod addysg i ddileu y ddiffyg yn y gyllideb

### **Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

### Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

### Digonol

#### Safonau: Digonol

Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol ym mhob un o'r dangosyddion allweddol yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwella. Serch hynny, mae'r perfformiad ym mhob un o'r rhain yn gosod yr ysgol ymysg y 50% is neu'r 25% isaf o ysgolion tebyg o ran cymhwysedd i brydau ysgol am ddim.

Mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg yn agos at ddeilliannau wedi'u modelu ar sail cymhwysedd i brydau ysgol am ddim ond yn is na chyfartaledd ysgolion yn y teulu. Ar wahân i mathemateg, mae perfformiad bechgyn yn is na pherfformiad y merched ym mhob un o'r dangosyddion. Serch hynny, mae perfformiad y bechgyn yn debyg i berfformiad bechgyn yn y teulu o ysgolion tebyg mewn nifer o ddangosyddion. Mae'r bwloch yn llai na'r bwloch yn yr ysgolion yn y teulu yn y dangosydd sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg ac yn y dangosydd pwnc craidd. Serch hynny, mae perfformiad merched yn is na chyfartaledd y teulu yn y dangosyddion yma. Dros y ddwy flynedd diwethaf, mae perfformiad yr ysgol yn y dangosydd lefel 2 a'r sgôr pwyntiau ehangach cyfartalog wedi gwella ychydig ond mae'n is na'r cymedr mewn ysgolion tebyg eraill. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni pump neu fwy o raddau TGAU A\*-A yn is na chyfartaledd ysgolion tebyg yn y teulu.

Mae disgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr ar sail eu cyflawniadau blaenorol yng nghyfnod allweddol 3 yn y dangosydd pynciau craidd ac yn y dangosydd sy'n cynnwys Cymraeg neu Saesneg a mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae'r canran sy'n cyflawni'r dangosydd pynciau craidd wedi gwella ac yn debyg i gyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg, ond yn gosod yr ysgol yn y 50% is o ysgolion tebyg o ran hawl i brydau ysgol am ddim.

Yn y chweched dosbarth, mae'r sgôr pwyntiau cyfartalog wedi gwella dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'n uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg. Mae'r canran o ddisgyblion sy'n cyflawni 3 A\*-C wedi gwella dros y blynyddoedd ac mae'n llawer uwch na chyfartaledd ysgolion tebyg yn y teulu yn 2014-2015. Mae'r canran sy'n cyflawni 3 A\*-A yn debyg i ganran y teulu o ysgolion tebyg.

Yng nghyfnod allweddol 4, yn gyffredinol, mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim yn is na chyfartaledd y grŵp hwn o ddisgyblion mewn ysgolion tebyg eraill.

Yn gyffredinol, mae disgyblion ag anghenion dysgu arbennig yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn erbyn eu targedau.

Ar ddiwedd cyfnod allweddol 4, mae bron pob un disgybl yn ennill un neu ragor o gymwysterau ac yn parhau mewn addysg neu hyfforddiant.

Mewn gwersi, mae bron pob un disgybl yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at eu dysgu ac yn ymroi'n llwyr i dasgau. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cyson yn y gwersi. Mewn ychydig o wersi, mae disgyblion yn gwneud llai o gynnydd oherwydd diffyg ymdrech a diddordeb yn y gwaith. Mae bron pob disgybl yn ateb cwestiynau yn y gwersi a llawer o ddisgyblion yn defnyddio termau technegol yn gywir.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud defnydd effeithiol o'u medrau llythrennedd mewn gwersi, ac yn gwneud hynny'n effeithiol iawn yn y gwersi Cymraeg. Mae bron pob un yn gwrando'n astud ac yn dilyn cyfarwyddiadau'r athro yn gywir. Mae gan lawer o ddisgyblion fedrau darllen effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio ystod o fedrau darllen yn llwyddiannus i gywain a chyflwyno gwybodaeth ar gyfer ystod o bwrpasau ar draws y cwricwlwm.

Ar draws y pynciau, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd gwerthfawr yn eu medrau ysgrifennu yn Saesneg ac yn y Gymraeg. Gallant ddefnyddio geirfa bynciol yn effeithiol ac ysgrifennu'n gywir i ystod o gynulleidfaoedd. Maent yn datblygu iaith raenus sydd yn caniatáu iddynt ysgrifennu mewn amrywiaeth o arddulliau ac at wahanol ddibenion.

Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu'u medrau rhifedd yn fuddiol ar draws y cwricwlwm. Maent yn defnyddio'r pedair rheol rhif yn hyderus gan gynnwys lluosï a rhannu rhifau cyfan. Maent yn defnyddio degolion, ffracsiynau a chanrannau'n hyfedr mewn nifer o bynciau perthnasol. Mae llawer o ddisgyblion yn casglu ac yn dadansoddi data mewn cyd-destunau amrywiol ac yn defnyddio'r data i lunio graffiau bar, llinell a siartiau cylch yn gywir.

### **Lles: Da**

Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn hyderus bod yr ysgol yn delio'n effeithiol â'r achosion prin iawn o fwlio. Yn gyffredinol, mae ganddynt agweddau cadarnhaol tuag at gadw'n iach a chwaraeon.

Mae presenoldeb wedi gwella'n sylweddol dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae nifer y disgyblion sy'n absennol yn barhaus wedi gostwng. Yn 2015, mae ffigurau presenoldeb yn gosod yr ysgol yn y 50% uwch o ysgolion tebyg ac maent yn debyg i ddeilliannau wedi'u modelu yn y ddwy flynedd diwethaf.

Mae ymddygiad bron pob disgybl mewn gwersi ac o amgylch yr ysgol yn ardderchog ac mae nifer isel iawn o waharddiadau. Mae bron pob disgyblion yn barchus ac yn ystyriol tuag at eu cyfoedion ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn cyrraedd gwersi'n brydlon, yn arddangos cymhelliant cryf ac yn ymroi i'w gwaith yn syth.

Mae disgyblion yn lleisio eu barn yn effeithiol drwy holiaduron bugeiliol a phynciol. Maent hefyd wedi dylanwadu ar agweddau ar fywyd ysgol trwy'r cyngor ysgol. Yn ddiweddar, maent wedi cyfrannu at newidiadau i bolisi ffonau symudol yr ysgol, addasiadau i lawlyfr y disgyblion a'r wisg ysgol newydd. Mae cyfleoedd buddiol ychwanegol i ddisgyblion gyfrannu at waith y cyngor trwy'r fforymau blwyddyn. Mae'r cyngor yn teimlo bod yr ysgol yn gwrando arnynt ac yn gweithredu ar eu hargymhellion. Fodd bynnag, nid oes cynrychiolaeth ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 ar gyngor yr ysgol.

Trwy ystod eang o weithgareddau allgyrsiol, mae llawer o ddisgyblion yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn llwyddiannus ac yn gwneud cyfraniadau gwerthfawr i'r gymuned. Er enghraifft, mae aelodau o'r chweched dosbarth yn rhedeg clybiau i ddisgyblion iau. Yn ogystal, mae'r disgyblion yn trefnu gweithgareddau dyngarol megis gweithgareddau Plant Mewn Angen a Diwrnod Siwmperi Nadolig er mwyn codi arian at achosion da lleol a chenedlaethol, er enghraifft elusen Macmillan.

<b>Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

**Profiadau dysgu: Da**

Mae cwricwlwm yr ysgol yn bodloni'r gofynion statudol ac yn cynnig profiadau eang a chytbwys i'r disgyblion. Gwneir trefniadau hyblyg sydd yn cynorthwyo disgyblion wrth iddynt ddewis pynciau. Yn ogystal, mae'r ysgol yn gweithio'n effeithiol mewn partneriaeth gyda choleg addysg bellach ac ysgolion eraill yr ardal er mwyn ehangu'r dewisiadau sydd ar gael yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth gynhwysfawr o ran gweithgareddau allgyrsiol sydd yn cyfoethogi profiadau addysgol y disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys ymweliadau addysgiadol niferus ynghyd ag ystod eang o weithgareddau chwaraeon ac achlysuron diwylliannol.

Llwydda'r ysgol i osod sail gadarn i fedrau llythrennedd y disgyblion yn y Gymraeg ac mae cwrs sefydlu Blwyddyn 7 yn gwneud cyfraniad sylweddol i hyn. Darperir cyfleoedd gwerthfawr, yn ogystal, ar gyfer datblygu medrau llythrennedd mewn pynciau ar draws y cwricwlwm. Gwelir effaith gadarnhaol y cynlluniau hyn yng ngwaith ysgrifenedig y disgyblion. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer medrau rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn datblygu'n effeithiol. Mae'r sesiynau ymyrraeth ar gyfer rhifedd a llythrennedd yn cefnogi disgyblion grwpiau targed yn fuddiol.

Mae'r ysgol yn cynllunio'n briodol ar gyfer darparu gweithgareddau yn ymwneud â chynaliadwyedd a dinasyddiaeth yng nghynlluniau gwaith adrannau pwnc penodol. Mae'r ysgol yn cefnogi gweithgareddau sydd yn codi ymwybyddiaeth o'r heriau sydd yn wynebu pobl mewn gwledydd eraill, er enghraifft 'Masnach Deg', ac mae'r ysgol yn cefnogi ymgyrch megis 'Bagiau ar gyfer ysgolion' ac yn danfon llyfrau ac adnoddau i gefnogi ysgolion yn Ghana.

**Addysgu: Da**

Mae'r staff addysgu yn fodolau iaith da iawn ac yn annog safonau tebyg ymhlith y disgyblion. Mae gwybodaeth bynciol gynhwysfawr a chyfoes gan bron pob un o'r athrawon. Mae bron pob athro yn sefydlu perthynas waith dda gyda'r disgyblion ac mae hyn yn meithrin dysgu effeithiol. Mae bron pob athro yn rheoli ymddygiad disgyblion yn gadarnhaol ac yn effeithiol yn y gwersi.

Mae llawer o athrawon yn cynllunio'n drwyadl ac yn gosod disgwyliadau uchel i bob un o'r disgyblion. Mae ganddynt amcanion clir ar gyfer gwersi. Mae llawer o athrawon yn defnyddio ystod eang o ddulliau ac adnoddau addysgu yn effeithiol, gan gynnwys offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Mae hyn yn ennyn diddordeb a mwynhad disgyblion ac yn eu hysgogi i gyflawni.



Mae'r mwyafrif o athrawon yn gwneud defnydd helaeth o dasgau amrywiol sy'n hybu medrau meddwl y disgyblion. Maent yn eu galluogi i weithredu'n annibynnol a gwella eu dysgu eu hunain. Caiff holi ei ddefnyddio'n effeithiol i sicrhau bod syniadau'r disgyblion yn cael eu herio. Mewn ychydig o wersi, mae'r holi o safon uchel iawn sydd yn symbylu'r disgyblion i feddwl yn ddyfnach ac yn ymestyn eu dealltwriaeth.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn rheolaidd ac yn cynnig sylwadau gwerthfawr ac adeiladol sydd o gymorth iddynt. Mae bron pob disgybl yn ymateb yn adeiladol i'r sylwadau hyn.

Mae pob athro yn rhoi adborth llafar cyson ac adeiladol, gyda llawer ohonynt yn rhoi adborth o ansawdd uchel i ddisgyblion unigol ac i grwpiau. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn cynnig cyfleoedd rheolaidd a gwerthfawr i'r disgyblion i hunanasesu ac i asesu gwaith cyfoedion.

Ers 2015, mae gan yr ysgol drefn newydd ysgol gyfan o olrhain cynnydd disgyblion. Mae'r drefn yn adnabod disgyblion unigol ac yn olrhain cynnydd at dargedau yn effeithiol. Defnyddir y drefn yn fuddiol i dargedu cynhaliaeth ychwanegol ac i gydlynu cefnogaeth i ddisgyblion unigol a grwpiau o ddisgyblion. Mae rhieni neu ofalwyr yn derbyn adroddiad interim hanner ffordd trwy'r flwyddyn ysgol ac adroddiad llawn defnyddiol ar ddiwedd y flwyddyn ysgol. Fodd bynnag, mae'r adroddiadau ar draws y pynciau yn amrywio'n ormodol o safbwynt ansawdd a chynnwys.

### **Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned ofalgar sydd â threfniadau cadarn i gefnogi iechyd a lles disgyblion. Mae'r tîm bugeiliol yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd a chydag amrediad o asiantaethau allanol er budd pob disgybl. Mae strategaethau llwyddiannus i wella presenoldeb a sicrhau safonau uchel o ran ymddygiad.

Mae darpariaeth werthfawr ar gyfer datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion. Mae rhaglen fuddiol o wasanaethau a myfyrdodau, a strategaethau pwrpasol i hyrwyddo byw'n iach. Mae'r ysgol yn darparu ystod helaeth o gyfleoedd allgyrsiol i ddisgyblion. Er enghraifft, mae cyfleoedd gwerthfawr iddynt gymryd rhan yng ngweithgareddau cerdd a drama yr ysgol ac mewn amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon. Mae'r rhaglen addysg bersonol a chymdeithasol yn datblygu'n briodol ac yn cynnig gweithgareddau defnyddiol a diddorol.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer trosglwyddo o'r ysgolion cynradd i'r ysgol uwchradd yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n ddiffwdan. Cynigir cyngor ac arweiniad cynhwysfawr i ddisgyblion i wneud dewisiadau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth. Mae rhaglen fuddiol o weithgareddau, gan cynnwys profiad gwaith, yn paratoi disgyblion yn effeithiol ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau.

Mae uned addysg arbennig yr ysgol, sef Canolfan yr Eithin, yn cynnig darpariaeth arbenigol a chynhwysol o safon uchel. Mae'r ganolfan yn galluogi'r disgyblion i wneud cynnydd gwerthfawr ac yn eu paratoi'n ofalus i lwyddo ar ôl gadael yr ysgol.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn addas, gan gynnwys rhaglenni ymyrraeth buddiol ar gyfer llythrennedd a rhifedd. Fodd bynnag, nid oes trefniadau digon effeithiol ar gyfer gosod a defnyddio targedau unigol i bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol nac ar gyfer adolygu cynnydd yn eu herbyn.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

### **Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae hon yn ysgol hapus gydag ethos cynhwysol a chartrefol Cymraeg. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo'n fawr ynnddi ac yn cyfleu'n gryf eu hymdeimlad o berthyn. Mae'r ysgol yn datblygu agweddau goddefgar ac yn sicrhau bod bron pob un o'r disgyblion a'r staff yn rhydd rhag aflonyddwch. Mae'r disgyblion a'r staff yn dangos lefelau uchel o barch tuag at ei gilydd. Mae cydweithio, ymddiriedaeth a chefnogaeth amlwg ymhlith y staff, y disgyblion a'r rhieni. Mae polisïau a gweithdrefnau'r ysgol yn sicrhau cyfle cyfartal i bob disgybl, beth bynnag eu hanghenion. Caiff pob disgybl fynediad teg i'r cwricwlwm ac i holl weithgareddau allgyrsiol yr ysgol.

Mae gan yr ysgol ystod eang o adnoddau o safon uchel i hyrwyddo'r dysgu. Mae'r ysgol wedi buddsoddi'n helaeth mewn adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu o safon uchel ar gyfer yr athrawon a'r disgyblion. Mae'r adeiladau a'r ystafelloedd dysgu yn darparu amgylchedd dysgu deniadol sy'n cael ei gynnal yn dda ac yn cefnogi'r dysgu a'r addysgu. Mae'r adnoddau ar gyfer chwaraeon a'r adeiladau newydd ar gyfer y celfyddydau creadigol, technoleg a gwyddoniaeth o safon uchel iawn. Mae llawer o arddangosfeydd lliwgar ac ysgogol yn yr ystafelloedd dosbarth a'r coridorau.

<b>Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?</b>	<b>Da</b>
--	-----------

### **Arweinyddiaeth: Da**

Mae arweinyddiaeth yn yr ysgol yn datblygu'n effeithiol er mai digonol yw safonau ar hyn o bryd. Mae arweinyddiaeth glir a disgwyliadau uchel yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau mewn darpariaeth, dysgu ac addysgu a lles disgyblion.

Ers ei benodiad ym Medi 2015, mae'r pennaeth wedi sefydlu gweledigaeth glir ar gyfer gwella'r ysgol. Mae ffocws cadarn ar godi safonau, gwella perfformiad athrawon ac arweinwyr, ac ymateb yn gadarnhaol i flaenoriaethau cenedlaethol. Yn y cyfnod byr ers mis Medi, mae'r pennaeth wedi cryfhau llinellau atebolrwydd y tîm uwch arwain, y system rheoli perfformiad, ac ethos cymunedol yr ysgol.

Caiff y pennaeth ei gefnogi'n effeithiol gan y tîm uwch arwain. Maent yn cydweithio'n rheolaidd ac yn rhannu gweledigaeth yr ysgol yn llwyddiannus. Rhoddir cyfeiriad strategol gwerthfawr i holl gymuned yr ysgol gan y pennaeth a'r tîm uwch arwain.

Darperir disgrifiadau swydd manwl i bob aelod o'r staff. Caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n glir, gyda systemau rheolaeth ac atebolrwydd cadarn. Mae rolau a

chyfrifoldebau'r pennaeth a'r uwch dîm arwain wedi'u diffinio'n glir ac maent yn ymdrin â phrif feysydd gwaith yr ysgol yn fedrus. Mae dosbarthiad priodol o rolau a chyfrifoldebau o fewn yr uwch dîm arwain.

Mae calendr penodol ac agenda strwythuredig ar gyfer cyfarfodydd. Mae'r uwch dîm arwain wedi paratoi rhaglen o gyfarfodydd penodol ar gyfer rheolwyr canol, gweithgorau proffesiynol a mentoriaid cynnydd, gyda ffocws clir ar wella safonau. Mae llinellau atebolrwydd yn glir gyda chyfarfodydd cyson rhwng penaethiaid adran a'u rheolwyr llinell. Mewn llawer o achosion, mae'r camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfodydd yn finiog ac yn sicrhau atebolrwydd.

Mae'r rhan fwyaf o'r rheolwyr canol yn cydweithio'n fuddiol gyda'i gilydd ac maent yn gosod disgwyliadau uchel a chyfeiriad strategol clir i'w adrannau a chyfadranau. Mae llawer o arweinwyr canol yn arwain eu hadrannau yn effeithiol ac yn hyderus wrth ddefnyddio data i ddadansoddi perfformiad disgyblion. Mae'r rheolwyr canol sydd â chyfrifoldeb am flwyddyn benodol yn dda yn eu rôl i sicrhau presenoldeb a lles y disgyblion. Fodd bynnag, datblygu maent yn eu rôl wrth sicrhau bod disgyblion yn gwneud cynnydd ac yn cyrraedd eu targedau academaidd.

Mae gan yr ysgol drefniadau rheoli perfformiad priodol ac mae'r rhain yn cael eu gweithredu'n gyson. Ceir cysylltiadau clir rhwng targedau athrawon a blaenoriaethau'r ysgol a'r adrannau. Mae rheolwyr yn delio'n effeithiol ag achosion o danberfformio.

Mae'r ysgol wedi ymateb yn llwyddiannus i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol, er enghraifft drwy gynyddu'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg a thrwy gydweithio'n strategol o fewn Llwybrau Dysgu 14-19.

Mae'r llywodraethwyr yn gefnogol iawn i'r ysgol ac yn datblygu'n addas yn eu rôl. Mae'r strwythur o bwyllgorau'r corff llywodraethol yn gweithredu'n effeithiol. Derbynia'r llywodraethwyr adroddiadau manwl ar ddata perfformiad yr ysgol sydd yn helpu i ddatblygu eu rôl fel cyfeillion beirniadol. Fodd bynnag, nid yw'r llywodraethwyr yn cyfrannu'n llawn i brosesau hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant yr ysgol. Mae llawer o'r llywodraethwyr wedi sefydlu cysylltiadau gwerthfawr gyda'u meysydd cyswllt. Ar hyn o bryd, nid yw'r llywodraethwyr yn herio'r adrannau yn ddigon trylwyr.

### **Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol brosesau cadarn ar gyfer hunanarfarnu a gwella ansawdd y rhan fwyaf o waith craidd yr ysgol. Mae arweinwyr yn dilyn rhaglen gynhwysfawr o weithgareddau i gywain tystiolaeth uniongyrchol wrth graffu ar waith disgyblion ac arsylwi gwersi. Mae arweinyddion yn arfarnu'n llawn y rhan fwyaf o waith yr ysgol. Fodd bynnag, mae ychydig iawn o feysydd lle nad yw hyn mor drylwyr, er enghraifft agweddau ar addysg bersonol a chymdeithasol ac anghenion dysgu ychwanegol.

Mae uwch reolwr a'r rhan fwyaf o reolwyr canol yn dadansoddi perfformiad yn llwyddiannus ac yn gyson. Mae'r rhan fwyaf o adrannau yn llunio adroddiadau hunanarfarnu manwl mewn fformat cyson. O ganlyniad, mae gan yr uwch dîm arwain, a'r rhan fwyaf o reolwyr canol, ddarlun clir o gryfderau a meysydd i'w datblygu. Mae'r prosesau hyn wedi dechrau cael effaith ar waith yr ysgol, gan gynnwys safon yr addysgu ac ar wella safonau mewn llawer o'r gwersi.

Mae systemau effeithiol ar gyfer holi disgyblion ar agweddau penodol o waith yr ysgol, er enghraifft lles disgyblion iau, a dysgu ac addysgu. Mae'r adrannau'n casglu barn dysgwyr yn effeithiol ar ddiwedd unedau gwaith pynciol. Mae'r ysgol yn holi barn rhieni yn briodol am rai agweddau ar waith yr ysgol.

Mae adroddiad hunanarfarnu'r ysgol yn arfarnol ac yn cynnwys dadansoddiad manwl a gonest o ddata perfformiad.

Mae pob adran yn llunio cynlluniau datblygu buddiol, gyda'r rhan fwyaf yn gwerthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau datblygu yn effeithiol. Mae cynllun datblygu'r ysgol yn dilyn yn glir o'r adroddiad hunanarfarnu a'r gwerthusiad o gynnydd yn erbyn y cynllun datblygu blaenorol. Mae'r cynllun datblygu yn cynnwys ffocws clir ar wella safonau ynghyd â thargedau heriol meintiol.

### **Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ystod eang o bartneriaid i sicrhau cwricwlwm eang yng nghyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth. Mae'r ysgol yn gwneud cyfraniad llawn i'r bartneriaeth rhwng tair ysgol gyfun cyfrwng Cymraeg y sir, i bartneriaeth ehangach gyda'r coleg addysg bellach leol ac i bartneriaethau 14-19 clwstwr Dinefwr. Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion uwchradd Cymraeg tu hwnt i'r sir, gan gynnwys cydweithio pynciol a darparu hyfforddiant i athrawon. Trwy'r holl bartneriaethau, mae'r ysgol yn ehangu cyfleoedd ar gyfer y disgyblion ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i athrawon rannu profiadau ac arbenigedd dysgu ac addysgu. Mae gan yr ysgol drefniadau cadarn yn eu lle er mwyn sicrhau ansawdd holl waith y partneriaethau.

Mae partneriaethau cryf yn eu lle rhwng yr ysgol a'r ysgolion cynradd i sicrhau bod disgyblion yn trosglwyddo i'r ysgol uwchradd heb anhawster. Mae cydweithio pynciol yn datblygu'n effeithiol rhwng yr ysgol a'r ysgolion cynradd. O ganlyniad, mae trefniadau trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd yn effeithiol iawn. Ceir cyswilt gryf a hygyrch rhwng yr ysgol a'r rhieni.

### **Rheoli adnoddau: Digonol**

Ceir rheolaeth addas ar gyllid yr ysgol gan y bwrsar a'r pennaeth. Serch hynny, o ganlyniad i gynllun trawsnewid addysg yn ardal Dinefwr, mae gan yr ysgol ddiffyg yn y gyllideb. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'r awdurdod lleol i leihau'r diffyg. Ar hyn o bryd, mae'r ysgol yn cynnal adolygiad trylwyr o staffio, blaenoriaethau cwricwlaidd a chostau, gan gynnwys y chweched dosbarth. Fel rhan o'r broses o bennu cyllideb 2016-2017, mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r awdurdod addysg i baratoi cynllun ariannol tair blynedd i ddileu'r diffyg yn y gyllideb.

Penodwyd yr holl staff o'r newydd o ganlyniad i ad-drefnu addysg yn yr ardal. Mae gan yr ysgol staff cymwys a phriodol i addysgu'r cwricwlwm yn effeithlon. Mae gan bob aelod o staff gymwysterau addas, gyda bron pob un yn addysgu ei bwnc arbenigol. Mae tîm cadarn o staff atodol yn cefnogi gwaith athrawon.

Mewn lleiafrif o gyrsiau chweched dosbarth, mae niferoedd y disgyblion ym mhob un o'r cyrsiau yn fach. O ganlyniad, nid yw'r chweched dosbarth yn gost effeithiol ar hyn o bryd ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar gyllideb yr ysgol.

Mae system rheoli perfformiad addas yn sicrhau bod pob aelod o staff addysgu yn cael ei gefnogi gan ddatblygiad proffesiynol parhaus. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth effeithiol o hyfforddiant ysgol gyfan. Mae cysylltiad clir rhwng system rheoli perfformiad a datblygiad staff.

Mae staff yn cyfrannu'n briodol at weithgoreu dysgu proffesiynol. Mae rhain yn canolbwyntio'n briodol ar ansawdd yr addysgu a'r dysgu ac ar wella medraullythrennedd a rhifedd y disgyblion. Serch hynny, nid ydynt wedi cael digon o effaith ar godi safonau yng nghyfnod allweddol 4.

